| | |
|---|---|
| **Teitl: Title :** | Diogelu Plant, Pobl Ifanc ac Oedolion Agored i Niwed |

Cydraddoldeb ac Amrywiaeth / Equality & Diversity

| | |
|---|---|
| Dolen at Gam 1 Asesu Effaith (ar Gydraddoldeb a’r Gymraeg): / Impact Assessment Stage 1 (Equality & Welsh) link: | [AEG Polisi Diogelu] |
| *Effaith ar yr Iaith Gymraeg*<br><br>*Mae asesiad effaith wedi'i gynnal ar y polisi hwn i ystyried ei effaith ar yr Iaith Gymraeg yn unol â Safonau'r Gymraeg (94-104) a Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011.* | *Welsh Language Impact*<br><br>An impact assessment has been carried out on this policy to consider its effect on the Welsh Language in accordance bwith the Welsh Language Standards (94-104) and the Welsh Language (Wales) Measure 2011. |

Adolygu a Chymeradwyo / Review and Approval

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Perchennog y Ddogfen: Document Owner:** | Pennaeth Gwasanaethau Dysgwyr | | |
| **Ymgynghoriad / Consultation:** | Grŵp Diogelu | | |
| **Dyddiad cymeradwyo / Date Approved** | Cymeradwyaeth y Pwyllgor Mewnol e.e. Grŵp Diogelu / Internal Committee Approval e.g. Safeguarding Group | | *Grŵp Diogelu Mawrth a Mai 2023* |
| | Pwyllgor Cyfathrebu a Diwylliant / Communications & Culture Committee: | | *26 Ebrill 2023* |
| | Pwyllgorau'r Bwrdd / Board Committees: | Pwyllgor Archwilio a Risg / Audit & Risk Committee: | *Amh.* |
| | | Pwyllgor Cwricwlwm a Safonau / Curriculum & Standards Committee | *Amh.* |
| | | Pwyllgor Cyllid, Pobl a Diwylliant / Finance, People & Culture Committee: | *25 Mai 2023* |
| | Corff Llywodraethu / Governing Body: | | *21 Mehefin 2023* |
| **Dyddiad Adolygu: Review Date:** | Mehefin 2024 | | |

Anfonwch y ddogfen wedi ei chymeradwyo i’w chyfieithu gan ddefnyddio’r [Ffurflen Cais Cyfieithu]
Send approved document for Translation using the [Translation Request Form]

Rhifwch bob adran a pharagraff
Please number each section and paragraph

**Tabl Cynnwys**

### Polisi Diogelu Plant, Pobl Ifanc ac Oedolion Agored i Niwed


| | |
|---|---|
| Diben | 3 |
| Cwmpas | 3 |
| Prif Egwyddorion | 3 |
| Diffiniadau | 4 |
| Cyfrifoldebau | 5 |
| Hyfforddiant a Datblygiad | 9 |
| Rhannu Gwybodaeth | 9 |
| Dysgu yn y Gwaith a Phrofiad Gwaith | 10 |
| Hysbysiad Asiantaeth Cyllido Addysg a Sgiliau | 10 |
| Adolygiad | 10 |


### Gweithdrefn Diogelu Plant, Pobl Ifanc ac Oedolion Agored i Niwed


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 11 |
| Dweud am Bryderon | 11 |
| Honiadau yn erbyn Aelod o Staff | 12 |
| Y Gymraeg | 14 |
| Atodiadau | 15 |

# Polisi Diogelu Plant, Pobl Ifanc ac Oedolion Agored i Niwed

## 1. Diben

Mae Coleg Cambria wedi ymrwymo i ddarparu amgylchedd diogel i'w holl ddysgwyr. Mae'r ymrwymiad i ddiogelu plant, pobl ifanc ac oedolion agored i niwed yn cael ei arwain gan ddeddfwriaeth gyfredol a chanllawiau cyfredol y Byrddau Diogelu Rhanbarthol yn unol â Gweithdrefnau Diogelu i Gymru 2019 a chanllawiau statudol Llywodraeth Cymru Cadw Dysgwyr yn Ddiogel ac adlewyrchu darpariaeth ein cwricwlwm, Cadw Plant yn Ddiogel mewn Addysg (Adran Addysg).
Bydd Coleg Cambria yn cydymffurfio â gofynion Gweithdrefnau Diogelu i Gymru 2019 a chanllawiau statudol a bydd yn cyd-weithio ag asiantaethau eraill i sicrhau diogelwch a lles ei ddysgwyr ym mhob amgylchedd dysgu, gan gynnwys canolfannau allgymorth, dysgu yn y gwaith a llety yn Llysfasi.

Nod y polisi hwn yw darparu'r wybodaeth angenrheidiol i'r holl gydweithwyr i'w galluogi i gyflawni eu cyfrifoldebau diogelu ac i sicrhau arfer da cyson.

## 2. Cwmpas

Mae gan y Coleg ddyletswydd foesol a statudol i ddiogelu a hyrwyddo lles plant, pobl ifanc
ac oedolion agored i niwed. Rydym yn ymdrechu i ddarparu amgylchedd diogel a chroesawgar lle mae'r holl ddysgwyr yn cael eu parchu a'u gwerthfawrogi, ac yn gallu cydnabod pan fyddant mewn perygl ac yn gwybod sut i gael gafael ar gymorth pan fo'i angen. Mae'r polisi a'r weithdrefn yn nodi trefniadau'r Coleg ar gyfer diogelu ac maent yn berthnasol i holl agweddau ein gwaith ac i bawb sy'n gweithio i'r Coleg gan gynnwys gweithwyr parhaol a thros dro, gweithwyr asiantaeth, contractwyr, gwirfoddolwyr a Llywodraethwyr.

## 3. Prif Egwyddorion

Un o brif flaenoriaethau'r Coleg yw iechyd, diogelwch a lles pob plentyn, person ifanc ac oedolyn mewn perygl sy'n rhan o gyrsiau neu weithgareddau y mae'r Coleg yn gyfrifol amdanynt. Wrth ddiogelu a hyrwyddo lles plant, pobl ifanc ac oedolion mewn perygl, byddwn felly yn:

- Defnyddio dull ataliol i warchod plant, pobl ifanc ac oedolion agored i niwed rhag anaf neu niwed posibl.
- Cymryd yr holl gamau priodol i fynd i'r afael â phryderon am les plant, pobl ifanc ac oedolion agored i niwed.
- Gweithio i bolisïau a gweithdrefnau lleol y cytunwyd arnynt mewn partneriaeth lawn ag asiantaethau lleol eraill sy'n cyfrannu at weithio amlasiantaethol yn unol â chanllawiau statudol.

  - Gweithio gyda gwasanaethau gofal cymdeithasol, yr heddlu, gwasanaethau iechyd a gwasanaethau eraill i hyrwyddo lles plant a phobl ifanc ac oedolion agored i niwed i'w gwarchod rhag niwed.

  - Cynllunio, gweithredu, monitro ac adolygu polisïau a gweithdrefnau i sicrhau bod y mwyaf posibl yn cael ei wneud i ddarparu amgylchedd diogel i blant, bobl ifanc ac oedolion agored i niwed yn y Coleg.

  - Cymryd yr holl fesurau rhesymol i sicrhau bod y perygl o niwed i les plant, pobl ifanc ac oedolion agored i niwed yn cael ei leihau trwy'r camau priodol canlynol:

    • Asesiad a rheoli risgiau
    • Gweithdrefnau Iechyd a Diogelwch
    • Dethol staff, recriwtio, ymsefydlu, goruchwylio a hyfforddi
    • Creu a hyrwyddo diwylliant gweithio agored
    • Hyrwyddo a hyfforddi'r Polisi Chwythu Chwiban
    • Dulliau i roi gwybod am bryderon.

- Gwneud y Polisi a Gweithdrefn Diogelu ar gael ar wefan y Coleg.

- Adolygu'r Polisi a Gweithdrefn Diogelu yn flynyddol, neu wrth i ddigwyddiadau a deddfwriaeth newid a'u cyflwyno i'r corff llywodraethu cyfan.

## 4. <u>Diffiniadau</u>

Mae'r term "plentyn" yn cyfeirio at unrhyw unigolyn sy'n iau na 18 oed (Deddf Plant 1989 ac Adran 3 y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014). Felly mae'n cyfeirio at bob dysgwr hyd at 18 oed.

Yn y polisi, mae'r **term 'person ifanc'** yn cael ei ddefnyddio, gan gydnabod fod y rhan fwyaf o ddysgwyr wedi cyrraedd yr isafswm oedran gadael ysgol o 16 oed pan maent yn ymuno â'r Coleg.

Mae'r term "<u>Plentyn Agored i Niwed</u>" yn disgrifio unigolyn hyd at 18 oed sy'n cael profiad o gam-drin, esgeulustod neu fathau eraill o niwed neu mewn perygl o hynny; ac unigolyn sydd ag anghenion gofal a chymorth (boed yr awdurdod yn bodloni unrhyw un o'r anghenion hynny ai peidio).

Mae'r term "<u>Oedolyn Agored i Niwed</u>" yn cyfeirio at unrhyw unigolyn 18 oed a hŷn sydd angen gwasanaethau gofal yn y gymuned oherwydd anabledd meddyliol neu anabledd arall, oedran, salwch ac sydd yn methu gofalu amdanynt eu hunain, neu a allai fod yn methu gwneud hynny, neu'n methu amddiffyn eu hunain rhag niwed sylweddol neu gael eu hecsbloetio'n ddifrifol.

Lle cyfeirir at ddysgwyr yn y ddogfen hon, mae hynny'n cynnwys plant ac oedolion.

## 5. <u>Cyfrifoldebau</u>

Bydd y Coleg yn sicrhau bod y dysgwyr yn teimlo'n ddiogel a'n bod yn gwrando arnynt, a'u bod yn gwybod at bwy y gallant fynd os ydynt yn poeni neu mewn anhawster.

Mae'r **Corff Llywodraethu** wedi ymrwymo i sicrhau bod y Coleg yn:

- Penodi aelod annibynnol o'r corff llywodraethu fel Llywodraethwr Cyswllt ar gyfer Diogelu
- Codi ymwybyddiaeth o faterion sy'n ymwneud â diogelu a hyrwyddo lles plant, pobl ifanc ac oedolion agored i niwed yn y Coleg
- Darparu amgylchedd diogel i blant, pobl ifanc ac oedolion agored i niwed
- Adnabod plant, pobl ifanc ac oedolion agored i niwed sy'n dioddef neu sydd mewn perygl o ddioddef niwed sylweddol a'i fod yn gweithredu'n briodol fel bod dysgwyr o'r fath yn cael eu cadw'n ddiogel yn y Coleg
- Meddu ar weithdrefn ar gyfer dweud ac ymdrin â chyhuddiadau o gam-drin yn erbyn aelodau staff, dysgwyr eraill a gwirfoddolwyr.
- Gweithredu gweithdrefnau recriwtio diogel
- Penodi aelod o staff a digon o awdurdod i arwain y cyfrifoldeb am ddiogelwch plant, diogelu a'r ddyletswydd Prevent
- Unioni unrhyw ddiffygion neu wendidau o ran trefniadau diogelu sy'n dod i sylw'r Corff Llywodraethu

Bydd y Llywodraethwr Penodedig yn gyfrifol hefyd am oruchwylio cydweithredu ag asiantaethau priodol yn gysylltiedig â honiadau diogelu yn erbyn Deiliad Swydd Uwch. Ni fydd hyn yn cynnwys ymgymryd ag archwiliad ffurfiol, ond sicrhau cyfathrebu rhwng partïon a darparu gwybodaeth i gynorthwyo ag ymholiadau.

Mae gan y **Dirprwy Brif Weithredwr (Profiadau Pobl a Diwylliant)** gyfrifoldeb cyffredinol am ddiogelu yn y Coleg ac mae'n cael ei gefnogi gan Bennaeth Gwasanaethau Dysgwyr sef y Person Diogelu Dynodedig (PDD), gyda'r Cydlynydd Diogelu yn gweithredu fel Dirprwy Berson Diogelu Dynodedig (DPDD).

Mae'r PDD yn gyfrifol am ddiogelu, diogelwch plant a Prevent yng Ngholeg Cambria, ac mae'n rhaid iddo:

● Sicrhau bod holl staff a gwirfoddolwyr yn cael hyfforddiant a diweddariadau rheolaidd ar adnabod, ymateb a dweud am bryderon, bob dwy flynedd o leiaf

● Gweithredu fel pwynt cyswllt unigol ar gyfer asiantaethau allanol, gan gynnwys y bwrdd diogelu rhanbarthol (Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru) a'r hwb diogelu amlasiantaethol (MASH) yr awdurdodau lleol.

● Fod yn rhan o Gynllun Diogelu Gofal a Chefnogaeth pan fo un ar waith ar gyfer person ifanc

● Cyflwyno adroddiad blynyddol i'r corff llywodraethu sy'n adolygu sut mae'r dyletswyddau wedi cael eu cyflawni, gan gynnwys hyfforddiant staff ac unrhyw argymhellion

● Sicrhau bod recriwtio staff (parhaol a dros dro) a defnyddio gwirfoddolwyr yn bodloni canllawiau recriwtio mwy diogel, gan gynnwys defnyddio'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a gofynion y Cyngor Gweithlu Addysg

● Sicrhau bod holl staff a gwirfoddolwyr yn cael hyfforddiant a diweddariadau rheolaidd ar adnabod, ymateb a dweud am bryderon, ac y cedwir cofnod hyfforddiant. Rhaid cynnal hyfforddiant atgoffa bob dwy flynedd o leiaf

● Sicrhau bod staff a gwirfoddolwyr newydd yn cael hyfforddiant fel rhan o'r cyfnod ymsefydlu ehangach ar weithdrefnau diogelu yn y Coleg a'u bod yn gallu gweld y ddogfen bolisi hon

● Sicrhau bod mecanweithiau yn bodoli i sicrhau bod defnyddio staff dros dro ac asiantaeth yn cydymffurfio â chyfrifoldebau a gweithdrefnau diogelu'r Coleg.

Mae'n rhaid i'r DPDD:

● Sicrhau bod ymgeiswyr ag euogfarn droseddol a ddatgelwyd yn cael eu hasesu'n briodol
ac yn gadarn trwy ymchwilio i ddatgeliadau ac asesu risgiau cysylltiedig i'w hunain ac i eraill ar sail eu cais i astudio

● Cysylltu â chyflogwyr a sefydliadau hyfforddi sy'n cael myfyrwyr o'r Coleg ar leoliadau tymor byr neu hirdymor (prentisiaid, hyfforddeiaethau, interniaid â chymorth a gweithleoedd) i sicrhau bod gweithdrefnau diogelu priodol yn weithredol

● Sicrhau amgylchedd ar-lein diogel trwy hidlo a monitro gweithgarwch trwy ddefnyddio meddalwedd briodol ac archwilio unrhyw logiau digwyddiadau ar-lein

● Sicrhau bod yr holl bryderon diogelu yn cael eu cofnodi'n gywir ac yn ddiogel yn unol â rheoliadau diogelu data

● Cysylltu â Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru a chanolbwynt diogelu amlasiantaethol yr awdurdodau lleol fel y bo'n briodol

Mae Swyddogion Lles yn gyfrifol am y canlynol:

● Darparu cyswllt rheng flaen i ddweud am bryderon diogelu

● Darparu cyngor, cefnogaeth a hyfforddiant i staff a myfyrwyr

● Atgyfeirio achosion o gamdriniaeth a amheuir, honiadau o gam-drin neu ddigwyddiadau o niwed i'r asiantaethau perthnasol

● Cynnal cofnodion cywir o unrhyw atgyfeiriad, cwyn neu bryder diogelu (hyd yn oed pan nad yw'r pryder yn arwain at atgyfeiriad) yn unol â rheoliadau diogelu data

● Ymdrin ag achosion unigol, gan gynnwys mynychu cynadleddau achosion a chyfarfodydd adolygu fel y bo'n briodol

● Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cydlynydd Diogelu a'r PDD am achosion o gamdriniaeth a amheuir, honiadau o gam-drin neu ddigwyddiadau o niwed.

Mae Rheolwr Cofrestredig Hostel Llysfasi yn gyfrifol am ddiogelu myfyrwyr preswyl ac am sicrhau bod prosesau adrodd yn bodloni gofynion Arolygiaeth Gofal Cymru. Mae'n rhaid i'r Rheolwr Cofrestredig roi gwybod i'r Unigolyn Cyfrifol am y gwasanaeth ar unwaith.

Person â Gofal – Meithrinfa Toybox - Mae'r Person â Gofal dynodedig am Feithrinfa Toybox yn gyfrifol am ddiogelu plant sy'n mynychu'r feithrinfa a'r cynllun chwarae yn ystod y gwyliau ac am sicrhau bod prosesau adrodd yn bodloni gofynion Arolygiaeth Gofal Cymru. Bydd gan y lleoliad ei bolisi ei hun ynghylch diogelu plant, yn unol â gofynion ei gofrestru.

Mae'n rhaid i'r Person â Gofal roi gwybod i'r Unigolyn Cyfrifol am y gwasanaeth ar unwaith.

Mae gan holl gydweithwyr y Coleg ddyletswydd gofal ar y cyd ac yn unigol i sicrhau bod amgylchedd diogel yn cael ei ddarparu i blant, pobl ifanc ac oedolion agored i niwed, lle gallant ddysgu. Mae'n gyfrifoldeb ar yr holl gydweithwyr i ymgyfarwyddo eu hunain gyda'r Polisi hwn a'r Gweithdrefnau sy'n mynd law yn llaw ag o, a rhoi gwybod yn syth am unrhyw bryderon, ni waeth pa mor fach neu ddibwys y gallai ymddangos.

Rhaid i unrhyw un sy'n gweithio yn y Coleg roi gwybod i'w rheolwr os ydyn nhw neu unrhyw oedolyn sy'n byw yn eu cartref yn dod yn destun honiad sy'n ymwneud â phryder diogelu neu gam-drin plentyn, person ifanc neu oedolyn agored i niwed. Os oes gan unrhyw un amheuaeth a yw'r sefyllfa neu'r honiad yn berthnasol, dylent chwilio am gyngor gan y PDD.

Mae gan y Coleg hefyd nifer o gydweithwyr sy'n ymgymryd â chyfrifoldebau diogelu fel rhan o'u swyddi parhaol fel Swyddog Lles, ac sy'n rheoli atgyfeiriadau diogelu ac yn gweithredu yn unol â gweithdrefn y Coleg. Mae rhestr o'r Swyddogion Lles ar gael yn Atodiad 2.

Mae'r Coleg yn gweithio gydag asiantaethau priodol i sicrhau bod plant, pobl ifanc ac oedolion agored i niwed yn cael eu diogelu trwy weithrediad effeithiol gweithdrefnau diogelu plant ac oedolion agored i niwed y Coleg.

Mae'n ofynnol i'r holl gydweithwyr ddilyn y gweithdrefnau Diogelu Plant, Pobl Ifanc ac Oedolion Agored i Niwed.

Mae'r Tîm AD yn gyfrifol am sicrhau bod gweithdrefnau recriwtio a dethol y Coleg yn cael eu cynnal yn unol â chanllawiau Cadw Dysgwyr yn Ddiogel a sicrhau bod yr holl wiriadau priodol, gan gynnwys gwiriadau uwch y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a gwirio'r "rhestr gwahardd" a gynhelir gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, yn cael eu cynnal ar gydweithwyr newydd, gwirfoddolwyr a llywodraethwyr a fydd yn gweithio neu'n dod i gysylltiad â phlant, pobl ifanc ac oedolion agored i niwed.

Fel cyflogwr personau cofrestredig, mae'r Coleg yn gyfrifol am gyfeirio achosion o ymddygiad proffesiynol annerbyniol honedig, anghymhwysedd proffesiynol difrifol a throsedd berthnasol at y Cyngor Gweithlu Addysg (CGA). Yn unol â Rheoliadau'r CGA (Prif Swyddogaethau) (Cymru) 2015, mae gan y Coleg ddyletswydd i gyfeirio achosion ato ble mae wedi diswyddo person cofrestredig, neu ble gallent fod wedi diswyddo person cofrestredig oni bai ei fod wedi ymddiswyddo. Mae'r Tîm AD yn gyfrifol am wneud atgyfeiriadau o'r fath

Bydd y Coleg, drwy'r PDD, yn cyfeirio holl bryderon neu honiadau cam-drin, yn brydlon i'r asiantaethau priodol, gan gynnal cofnodion cyfrinachol a diogel o bob atgyfeiriad o'r fath.

Bydd y Coleg yn ceisio darparu cymorth priodol i'r dysgwr dan sylw, naill ai'n uniongyrchol neu trwy atgyfeirio, os ydym yn gwybod eu bod wedi cael eu cam-drin. Os gwneir honiad plentyn i blentyn, yna bydd pob plentyn yn cael cymorth gan eiriolwr o'r Tîm Gwasanaethau Myfyrwyr, tra cynhelir ymchwiliad i'r mater.

Mae'r Coleg yn cydnabod y gallai dysgwyr, yn enwedig y rhai sy'n agored i niwed oherwydd eu hoedran, eu hanabledd neu eu salwch fod mewn perygl o brofi, neu wedi profi camdriniaeth. Bydd y Coleg yn darparu arweiniad ac addysg briodol i ddysgwyr ynghylch camdriniaeth, ac atal hynny, drwy ei system cymorth bugeiliol.

Mae'n ofynnol gan y Coleg i'r holl ddysgwyr ddatgelu gwybodaeth am achosion troseddol penodol petai'r canlyniad mewn achos o'r fath yn effeithio ar y maes galwedigaethol y maent yn ei astudio mewn perthynas â phlant neu oedolion agored i niwed. Bydd y wybodaeth hon yn cael ei thrin yn hollol gyfrinachol, ond, efallai y bydd angen i'r Coleg weithredu ar y wybodaeth a rhoi gwybod i asiantaethau eraill. Fel arall, trwy gynadleddau achos a chyfarfodydd strategaeth gydag asiantaethau allanol (yr heddlu, gwasanaethau cymdeithasol ac ati) gellir rhoi gwybodaeth i'r Coleg sy'n cwestiynu addasrwydd dysgwr

ar raglen benodol. Os yw hynny'n wir, gwahoddir y dysgwr i drafod hynny a dilynir y Polisi Datgelu Collfarnau Troseddol heb Ddarfod.

## 6. Hyfforddiant a Datblygiad

Mae'n ofynnol i holl aelodau'r Corff Llywodraethu, Deiliaid Swyddi Uwch a'r holl gydweithwyr sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc ac oedolion agored i niwed, ymgymryd â hyfforddiant i roi'r sgiliau iddynt gyflawni eu cyfrifoldebau i ddiogelu plant, pobl ifanc ac oedolion agored i niwed yn effeithiol.

Mae'n ofynnol i holl gydweithwyr ac aelodau'r corff llywodraethu gwblhau hyfforddiant diogelu gorfodol (e-ddysgu) cyn dechrau yn y Coleg a phob dwy flynedd wedi hynny. Mae digwyddiadau hyfforddi ar y safle, diweddariadau diogelu a gwarchod, a chyfarfodydd staff i gyd yn ategu'r hyfforddiant hwn.

Mae gofyn i gydweithwyr sydd â chyfrifoldebau Diogelu gwblhau Hyfforddiant Lefel 2 adnabyddedig bob dwy flynedd. Mae'n ofynnol i'r PDD a'r Dirprwyon ymgymryd â hyfforddiant sy'n berthnasol i'r swydd bob dwy flynedd.

Trwy'r rhaglen diwtorialau, mae'n ofynnol i'r holl fyfyrwyr gwblhau modiwlau diogelu sy'n cynnwys Gwerthoedd Prydeinig, 'Prevent' a Radicaleiddio, Cyfoedion yn Cam-drin Cyfoedion a Diogelwch Ar-lein.

## 7. Rhannu Gwybodaeth

Bydd cydweithwyr i gyd yn deall bod angen lefel uchel o gyfrinachedd wrth drin materion diogelu. Dim ond gyda'r Tîm Diogelu y dylai cydweithwyr drafod pryderon. Bydd yr unigolyn hwnnw wedyn yn penderfynu gyda phwy arall y mae angen rhannu'r wybodaeth a byddant yn gwneud hynny ar sail 'angen cael gwybod'.

Bydd gwybodaeth am ddiogelu yn cael ei chadw a'i thrin yn unol ag Amserlen Cadw Gwybodaeth y Coleg am 20 mlynedd. Bydd rhannu gwybodaeth yn digwydd yn brydlon ac yn ddiogel a lle bo angen gwneud hynny, a bod hynny'n gymesur, bydd y wybodaeth yn berthnasol, yn ddigonol ac yn gywir.

Bydd penderfyniadau rhannu gwybodaeth yn cael eu cofnodi p'un a phenderfynir rhannu'r wybodaeth ai peidio. Defnyddir cyfrinair i warchod unrhyw gofnodion diogelu electronig a bydd ond ar gael i unigolion perthnasol.

Bydd y PDD yn cael caniatâd y dysgwr a/neu'r rhieni i rannu gwybodaeth sensitif yn y Coleg neu gydag asiantaethau allanol. Pan fydd rheswm da dros wneud hynny, gall y PDD rannu gwybodaeth heb ganiatâd, a bydd yn cofnodi'r rheswm dros beidio â chael caniatâd.

Rhaid i gydweithwyr beidio â datgelu gwybodaeth sy’n ymwneud â myfyriwr, eu lles neu eu gwybodaeth bersonol heb ganiatâd penodol i wneud hynny gan y PDD neu DPDD. Mae'r amod hwn yn cynnwys lle gall cydweithiwr gael cais am wybodaeth gan riant, gwarcheidwad neu'r heddlu. Mae'n ofynnol i'r heddlu ddarparu Ffurflen Gais Data Personol wedi'i chwblhau i'r Coleg.

Er bod gan y Coleg ddyletswydd i gydymffurfio â’r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (‘GDPR’), byddwn yn gweithredu’n unol â rhannu gwybodaeth yn gyfreithlon at ddibenion diogelu a diogelu myfyrwyr sydd mewn perygl o niwed.

## 8. Dysgu yn y Gwaith a Phrofiad Gwaith

Bydd unrhyw fyfyriwr sy'n ymgymryd â chyflogaeth neu leoliad gwaith mewn man addysg, iechyd neu ofal cymdeithasol yn ddarostyngedig i bolisi a gweithdrefn diogelu'r cyflogwr hwnnw. Nid yw hyn yn golygu na fydd ein polisi ein hunain hefyd yn cael ei ddefnyddio i sicrhau diogelwch a llesiant myfyriwr.

Cyfrifoldeb y Coleg, nid y cyflogwr, yw arwain unrhyw gamau gweithredu, ymchwiliad neu gymorth sy'n gysylltiedig â diogelu prentis neu fyfyriwr sy'n ymgymryd â lleoliad gwaith.

Mae’r Coleg yn cydnabod ei ddyletswydd i fetio a sicrhau diwydrwydd dyladwy wrth ddod o hyd i gyflogwyr a’u cymeradwyo at ddibenion gweithgaredd lleoliad gwaith. Mae'r Coleg yn gyfrifol am unrhyw asesiad risg, gwirio yswiriant atebolrwydd cyhoeddus y cyflogwr a monitro'r lleoliad gwaith.

## 9. Hysbysiad Asiantaeth Cyllido Addysg a Sgiliau

Mae gofyn i golegau sy’n cael dyraniadau cyllid blynyddol gan yr Asiantaeth Ariannu Addysg a Sgiliau (‘ESFA’) ar gyfer darparu addysg i fyfyrwyr 16 i 18 oed, neu unrhyw berson ifanc 19 i 25 oed sy’n destun Cynllun Addysg, Iechyd a Gofal sydd angen cymorth ychwanegol sy’n costio dros £6,000, trwy'r cytundeb Amodau Ariannu i roi gwybod i’r ESFA am ddigwyddiadau diogelu difrifol.

Bydd y PDD yn rhoi gwybod i’r ESFA o dan y naill neu’r llall o’r amgylchiadau canlynol, drwy’r ymholiadau uniongyrchol: Enquiries.ESFA@education.gov.uk:

• mae pryder diogelu sy’n ymwneud â thrais rhywiol wedi’i gyfeirio at ofal cymdeithasol plant/gofal cymdeithasol oedolion Awdurdod Lleol a/neu’r heddlu, neu
• bod honiad o gam-drin a wnaed yn erbyn athro, darlithydd neu aelod arall o staff wedi'i gyfeirio at y Swyddog(ion) Dynodedig (yn yr Awdurdod Lleol).

## 10. Adolygiad

Bydd y polisi hwn a'r weithdrefn gysylltiedig yn cael eu hadolygu'n flynyddol a'u cyflwyno i'r Bwrdd Llywodraethwyr i’w cymeradwyo. Bydd unrhyw newidiadau sy'n ofynnol yn

ystod y flwyddyn mewn ymateb i ddeddfwriaeth a chanllawiau statudol yn cael eu trafod gyda'r Corff Llywodraethu a bydd yn cael ei ychwanegu i’r polisi.

**Gweithdrefn Diogelu Plant, Pobl Ifanc ac Oedolion Agored i Niwed**

**1. Cyflwyniad**

Mae gan yr holl gydweithwyr ddyletswydd gofal ar y cyd ac unigol i sicrhau amgylchedd diogel lle gall plant, pobl ifanc ac oedolion agored i niwed ddysgu ynddo. Cyfrifoldeb yr holl gydweithwyr yw rhoi gwybod am unrhyw bryderon yn syth, ni waeth pa mor fach neu ddibwys y gallai ymddangos.

Diben y Weithdrefn hon yw nodi'r camau y mae'n rhaid eu cymryd yn unol â chanllawiau statudol a chanllawiau lleol, os oes pryder bod plentyn, person ifanc neu oedolyn agored i niwed yn dioddef neu'n debygol o ddioddef niwed.

Mae cam-drin ac esgeulustod yn fathau o gamdriniaeth. Gall rhywun gam-drin neu esgeuluso plentyn / oedolyn agored i niwed, a'u niweidio trwy eu taro neu fethu â gweithredu i atal niwed. Gall ddynion neu fenywod sy'n oedolion neu blant a phobl ifanc eraill gam-drin rhywun.

Mae'r Gweithdrefnau Diogelu i Gymru 2019 yn cyfeirio at y categorïau camdriniaeth ac maent wedi'u rhestru yn Atodiad 1 y polisi hwn.

**2. Dweud am Bryderon**

Mae'n gyfrifoldeb ar bob cydweithiwr sy'n gweithio yn y Coleg i gofnodi ac atgyfeirio pryderon ynghylch diogelu plant, pobl ifanc ac oedolion agored i niwed, hyd yn oes os mai amheuon neu sïon a glywyd ar ddamwain ydynt. Gall plant, pobl ifanc ac oedolion agored i niwed gael eu cam-drin o fewn y teulu, y gymuned, gan weithwyr (gan gynnwys y rhai sy'n cael eu cyflogi i hyrwyddo eu lles a'u hamddiffyn rhag camdriniaeth), ymwelwyr a chyd-fyfyrwyr.

Os yw plentyn, person ifanc neu oedolyn agored i niwed yn siarad ag aelod o staff am fater a allai arwain at gam-drin, dylai'r aelod o staff wrando'n ofalus gan ddefnyddio'r canllawiau canlynol:

- Dylid caniatáu i'r plentyn, y person ifanc neu'r oedolyn agored i niwed siarad heb ymyrryd.
- Ni ddylai'r mater ei wneud i ymddangos yn ddibwys neu wedi'i or-ddweud.
- Ni ddylid gwneud awgrymiadau.
- Ni ddylid hyfforddi nac arwain y plentyn, y person ifanc neu'r oedolyn agored i niwed mewn unrhyw ffordd.
- Dylid ei gwneud yn glir i'r plentyn, y person ifanc neu'r oedolyn agored i niwed mai siarad yn agored oedd y peth iawn i'w wneud.
- Dylid gofyn cwestiynau i gael dealltwriaeth eglur heb archwilio'n fanwl na chwestiynu, ni waeth pa mor gyfarwydd yw'r plentyn, y person ifanc neu'r oedolyn agored i niwed.
- Rhaid egluro na ellir cadw'r mater a godwyd yn gyfrinach ac y bydd angen ei gyfeirio at ddiogelu.
- Rhaid peidio â dangos emosiynau fel dicter, ffieidd-dod neu anghrediniaeth oherwydd gallai hyn atal y person rhag siarad os yw'n teimlo teimladau negyddol yn cael eu cyfeirio tuag atynt.

- Sicrhewch fod y plentyn, y person ifanc neu'r oedolyn agored i niwed yn gwybod bod y mater yn cael ei gymryd o ddifrif.
- Gwnewch i'r plentyn, y person ifanc neu'r oedolyn agored i niwed deimlo'n ddiogel heb achosi unrhyw bryder pellach iddynt.

Os yw cydweithiwr yn amau neu'n cael gwybod y gallai plentyn, person ifanc neu oedolyn agored i niwed fod wedi cael ei gam-drin, rhaid rhoi gwybod i'r Tîm Diogelu yr un diwrnod naill ai trwy atgyfeiriad ar lafar neu trwy ddefnyddio'r Ffurflen Atgyfeirio Diogelu'r Coleg trwy'r Botwm Diogelu ar Happeo. Mewn sefyllfa pan fo pryder ynghylch anffurfio organau cenhedlu benywod (FGM) rhaid rhoi gwybod yn uniongyrchol i'r PDD (neu DPDD) er mwyn atgyfeirio i'r heddlu yn unol â goblygiadau cyfreithiol.

Ar ôl ei atgyfeirio, mae Swyddog Diogelu yn gyfrifol am gael cofnod ysgrifenedig llawn o'r materion a godwyd o fewn 24 awr gan yr aelod staff atgyfeiriol a fydd yn cynnwys:

- Enw a swydd y person a roddodd wybod am y mater.
- Boed y mater yn ddatgeliad uniongyrchol gan blentyn, person ifanc neu oedolyn agored i niwed, yn amheuaeth neu'n sgwrs a glywyd ar ddamwain.
- Cofnod ffeithiol o'r hyn a glywyd ar ddamwain neu beth gafodd ei ddatgelu, gan gynnwys unrhyw gwestiynau a oedd angen eu gofyn er mwyn rhoi dealltwriaeth eglur.
- Manylion am unrhyw arsylwadau (gan gynnwys arwyddion corfforol o gam-drin amlwg).
- Rhaid i'r cofnod ysgrifenedig gynnwys unrhyw farn neu ddehongliad personol o'r ffeithiau a rhaid i'r aelod staff atgyfeiriol ei lofnodi a'i ddyddio.

Ni ddylai'r cydweithiwr sy'n atgyfeirio drafod y mater gydag unrhyw un arall oni bai am Swyddog Lles (Diogelu), DPDD neu'r PDD. Bydd gwybodaeth fanwl am yr achos yn cael ei gyfyngu i'r Swyddog Diogelu, y DPDD neu'r PDD a'r rhieni/gofalwyr (os nad ydynt yn gysylltiedig). Bydd y cydweithiwr a gyflwynodd yr adroddiad yn cael gwybod am gynnydd yr achos ar "sail angen gwybod yn unig".

### 3. <u>Honiadau yn erbyn aelod o staff</u>

Prif bryder y Coleg yw sicrhau diogelwch y plentyn, y person ifanc neu'r oedolyn agored i niwed. Mae'n hanfodol ym mhob achos o amheuaeth o gam-drin gan weithiwr bod camau'n cael eu cymryd yn gyflym ac yn broffesiynol. Ym mhob awdurdod lleol mae Swyddog Dynodedig sydd â chyfrifoldeb am roi cyngor a monitro cynnydd achosion sy'n ymwneud â phlant, i sicrhau bod materion yn cael eu hymdrin â nhw cyn gynted â phosibl ac yn gyson, gyda phroses deg a thrylwyr.

Mae'n rhaid i gydweithwyr sylweddoli bod ymddygiad amhriodol tuag at ddysgwyr yn annerbyniol a bod yn rhaid i'w hymddygiad fod yn ddi-fai. O dan Ddeddf Troseddau Rhyw 2003 mae'n drosedd i unigolyn dros 18 oed gael perthynas rywiol ag unigolyn o dan 18 oed, lle mae'r unigolyn hwnnw mewn sefyllfa o ymddiriedaeth, hyd yn oed os yw'r berthynas yn gydsyniol. Mae hyn yn golygu y gallai unrhyw weithgaredd rhywiol rhwng aelod o'r Coleg a dysgwr dan 18 oed fod yn drosedd. Mae Cod Ymddygiad y Coleg yn nodi ein disgwyliadau ar gyfer yr holl gydweithwyr.

Mae'r Coleg yn rhoi cyngor i staff ynghylch eu gweithgaredd personol ar-lein yn y Polisi Diogelwch Gwybodaeth (is-bolisi: Polisi Defnydd TG Derbyniol) a'r Polisi Cyfryngau Cymdeithasol. Os canfyddir bod cydweithwyr yn torri'r rheolau hyn, gellir eu disgyblu neu gallwn gynnal ymchwiliad diogelu.

Os gwneir honiad o gam-drin yn erbyn cydweithiwr y Coleg, bydd y PDD yn dilyn y canllawiau Rhan 5 Gweithdrefnau Diogelu i Gymru 2019 a gofynion Arolygiaeth Gofal Cymru.

Bydd y PDD yn rhoi gwybod i'r Swyddog Dynodedig (Awdurdod Lleol) os yw honiad yn cael ei wneud sy'n dangos, yn ôl ei werth, bod cydweithiwr y Coleg wedi ymddwyn mewn ffordd:

- gall trosedd fod wedi ei chyflawni yn erbyn plentyn, person ifanc neu oedolyn agored i niwed, neu yn gysylltiedig â nhw
- sydd wedi niweidio neu a allai fod wedi niweidio plentyn, person ifanc neu oedolyn agored i niwed, neu
- wedi ymddwyn tuag at blentyn, person ifanc neu oedolyn agored i niwed mewn ffordd sy'n dangos eu bod yn peri risg o achosi niwed pe byddent yn gweithio gyda phlant, neu
- wedi ymddwyn neu efallai eu bod wedi ymddwyn mewn ffordd sy'n dangos efallai nad ydyn nhw'n addas i weithio gyda phlant, pobl ifanc neu oedolion agored i niwed.

Byddwn yn rhoi gwybod i'r heddlu am honiadau ynghylch gweithwyr nad ydynt bellach yn gweithio yn y Coleg, neu am honiadau hanesyddol.

Heb os, mae cydweithwyr sy'n poeni am ymddygiad cydweithiwr tuag at ddysgwr yn cael eu rhoi mewn sefyllfa anodd iawn. Efallai eu bod yn poeni eu bod wedi camddeall y sefyllfa a byddant yn meddwl tybed a allai rhoi gwybod am hynny beryglu gyrfa cydweithiwr. Rhaid i'r cydweithwyr i gyd gofio mai lles y dysgwr sydd bwysicaf. Dylid rhoi gwybod i'r PDD am bob pryder ynghylch arfer gwael neu gamdriniaeth bosibl gan gydweithwyr. Dylid rhoi gwybod i Gadeirydd y Llywodraethwyr drwy'r PDD am bob hysbysiad neu gŵyn am y Prif Weithredwr neu'r Deiliaid Swyddi Uwch, a fydd yn cysylltu â'r awdurdod lleol ac yn dilyn canllawiau Rhan 5 Gweithdrefnau Diogelu i Gymru 2019 ac Arolygiaeth Gofal Cymru.

Bydd y Swyddog Dynodedig yr Awdurdod Lleol yn pennu:

- a ddylai'r mater gael ei drin fel honiad neu gŵyn ac a oes angen ymgymryd ag ymholiadau rhagarweiniol ac, os hynny, sut dylid cynnal yr ymholiadau, neu;
- a ddylid galw Cyfarfod Strategaeth ac a oes angen gweithredu ar unwaith i ddiogelu plentyn.

Bydd cyfarfod Strategaeth yn cael ei alw lle bo amheuaeth bod plentyn, person ifanc neu oedolyn wedi dioddef niwed sylweddol neu all ddioddef hynny. Bydd y PDD/DPDD a chynrychiolydd o'r adran Adnoddau Dynol yn mynychu'r cyfarfod. Bydd cynrychiolydd o'r Heddlu hefyd yn bresennol os credir bod trosedd wedi'i gyflawni o bosib.

Ni fydd ymchwiliad/ymholiad mewnol i'r honiad yn cael ei gynnal nes bydd ymgynghoriad wedi'i gynnal gyda'r Swyddog Dynodedig neu fod canlyniad y cytunwyd arno o Gyfarfod Strategaeth. Bydd y cyflogai y gwnaed honiad yn ei erbyn yn cael gwybod am yr honiad cyn gynted â phosibl

ar ôl yr ymgynghoriad cychwynnol â'r Swyddog Dynodedig, neu gyfarfod strategaeth os oes angen un, a’u bod wedi dod i gytundeb ar sut y caiff y mater ei ddatblygu.

Yn deillio o'r atgyfeiriad i'r Swyddog Dynodedig, gallai'r camau y cytunwyd arnynt gynnwys:

- Dim camau pellach.
- Atgyfeiriad yn ôl i'r Coleg i gynnal ei ymchwiliad mewnol ei hun. Bydd ymchwiliad o'r fath yn cael ei gynnal o dan y Weithdrefn Disgyblu Staff.
- Penderfynu y dylid cynnal ymchwiliad troseddol. Os bydd amheuaeth o drosedd, ni fydd ymchwiliad yn cael ei gynnal gan y Coleg, oni bai am sefydlu'r ffeithiau.

Bydd yr holl wybodaeth a geir yn cael ei throsglwyddo i'r heddlu a fydd yn cynnal unrhyw ymchwiliad angenrheidiol, gyda chefnogaeth y Coleg. Pan gynhelir ymchwiliad mewnol, bydd PDD y Coleg yn rhoi adborth ar y canlyniad i'r Swyddog Dynodedig er mwyn sicrhau bod honiadau llai difrifol hyd yn oed wedi'u hystyried a bod camau priodol wedi'u cymryd.

Gellir atal y cydweithiwr rhag cyflog llawn hyd nes y daw ymchwiliad i ben, yn dibynnu ar ddifrifoldeb yr honiad. Fodd bynnag, nid ataliad fydd y sefyllfa ddiofyn, a dim ond mewn achosion lle mae rheswm i amau bod plentyn, person ifanc neu oedolyn mewn perygl o niwed, neu os yw'r achos mor ddifrifol, y gallai fod yn sail dros ddiswyddo.

Mewn achosion o'r fath, ni fydd ataliad yn digwydd oni bai ein bod wedi ystyried yr holl opsiynau eraill sydd ar gael ac nad oes dewis arall rhesymol. Os yw'r unigolyn y gwnaed yr honiad yn ei erbyn yn cael ei gyflogi trwy asiantaeth, bydd y camau priodol yn cael eu trafod gyda'r rheolwr perthnasol yn yr asiantaeth.

Os bydd y cydweithiwr y gwnaed honiad yn ei erbyn yn ymddiswyddo neu'n peidio â darparu ei wasanaethau yn ystod ymchwiliad, bydd yr honiad yn parhau i gael ei ymchwilio yn unol â'r gweithdrefnau a dod i gasgliad. Bydd y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cael gwybod, yn unol â'r ddyletswydd statudol, os caiff aelod o staff ei ddiswyddo o dan y Weithdrefn hon neu'n ymddiswyddo cyn i wrandawiad disgyblu ddod i ben.

Bydd y Coleg yn cadw cofnodion clir a chynhwysfawr o unrhyw honiadau a wnaed, manylion am sut aethant i’r afael â’r honiad a'i ddatrys, ynghyd â manylion unrhyw gamau a phenderfyniadau a wnaethant. Bydd y rhain yn cael eu rhoi am gyfnod amhenodol ar ffeil personél cyfrinachol cydweithiwr. Bydd y ffeil yn cael ei chadw am 10 mlynedd o ddyddiad yr honiad os bydd y cydweithiwr yn gadael cyflogaeth cyn i'r cyfnod hwn ddod i ben.

Wrth ddarparu tystlythyrau cyflogwr, ni chyfeirir at unrhyw honiad yr oedd wedi ei brofi yn ffug, heb sail neu yn faleisus, nac unrhyw hanes o honiadau lle cafodd pob honiad ei brofi’n ffug, heb sail neu yn faleisus.

**4. <u>Y Gymraeg</u>**

Yn unol â Safonau’r Gymraeg, bydd holl gyfarfodydd, gohebiaeth a gwasanaethau cymorth sy’n rhan o’r prosesau hyn yn cael eu cynnig yn Gymraeg.

**Atodiad 1**

**Cam-drin Corfforol**
Mae cam-drin corfforol yn fath o gamdriniaeth sy'n gallu cynnwys taro, ysgwyd, taflu, gwenwyno, llosgi neu sgaldio, boddi, mygu neu achosi niwed corfforol fel arall i blentyn. Gall niwed corfforol gael ei achosi hefyd pan fydd rhiant neu ofalwr yn ffugio symptomau salwch, neu'n achosi'n salwch yn fwriadol, mewn plentyn. Cyfeirir at hyn fel salwch ffug neu wedi'i ysgogi.

**Cam-drin Emosiynol**
Cam-drin emosiynol yw cam-drin plentyn yn emosiynol yn barhaus er mwyn achosi effeithiau andwyol difrifol a pharhaus ar ddatblygiad emosiynol y plentyn. Gall olygu cyfleu i blentyn ei fod yn ddi-werth neu nad oes neb yn ei garu, ei fod yn annigonol, neu'n cael ei werthfawrogi dim ond i'r graddau y mae'n diwallu anghenion rhywun arall. Efallai bydd yn cynnwys peidio â rhoi cyfleoedd i'r plentyn fynegi barn, eu distewi'n fwriadol neu 'wneud hwyl' am hyn y maent yn ei ddweud neu sut y maent yn cyfathrebu. Gall y rhain gynnwys gosod disgwyliadau amhriodol o ran oedran neu ddatblygiadol ar blentyn. Maent yn gallu cynnwys rhyngweithiadau sydd y tu hwnt i allu datblygiadol plentyn, yn ogystal â goramddiffyn a chyfyngu ar archwilio a dysgu, neu atal y plentyn rhag cymryd rhan mewn rhyngweithio cymdeithasol arferol. Gall gynnwys gweld neu glywed rhywun arall yn cael eu cam-drin. Gall gynnwys bwlio difrifol (gan gynnwys seiberfwlio), gan achosi i'r plant deimlo ofn yn aml neu fod mewn perygl, neu gael eu hecsbloetio neu eu llygru. Mae rhywfaint o gam-drin emosiynol yn gysylltiedig â phob math o gamdriniaeth plentyn, er y gallai ddigwydd ar ei ben ei hun.

**Cam-drin Rhywiol**
Mae cam-drin rhywiol yn cynnwys gorfodi neu ddenu plentyn neu unigolyn ifanc i gymryd rhan mewn gweithgareddau rhywiol, na sydd o reidrwydd yn cynnwys lefel uchel o drais, p'un a yw'r plentyn yn sylweddoli beth sy'n digwydd ai peidio. Gallai'r gweithgareddau hyn gynnwys cyswllt corfforol, gan gynnwys ymosod trwy dreiddiad (er enghraifft, treisio neu ryw geneuol) neu weithredoedd nad ydynt yn dreiddiol fel cusanu, mastyrbio, rhwbio a chyffwrdd y tu allan i ddillad. Gallent hefyd gynnwys gweithgareddau digyswllt, fel cynnwys plant yn edrych ar ddelweddau rhywiol, neu gynhyrchu'r delweddau hynny, gwylio gweithgarwch rhywiol, annog plant i ymddwyn mewn ffyrdd rhywiol amhriodol, neu baratoi plentyn ar gyfer ei gam-drin (gan gynnwys trwy'r rhyngrwyd). Nid dynion sy'n oedolion yn unig sy'n cam-drin plant yn rhywiol. Gall menywod hefyd gyflawni gweithredoedd cam-drin rhywiol, fel y gall plant eraill.

**Esgeulustod**
Esgeulustod yw methiant parhaus i ddiwallu anghenion corfforol a/neu seicolegol sylfaenol plentyn, sy'n debygol o arwain at nam difrifol ar iechyd neu ddatblygiad y plentyn. Gall esgeulustod ddigwydd yn ystod beichiogrwydd o ganlyniad i gam-drin sylweddau gan y fam. Unwaith y bydd plentyn yn cael ei eni, gall esgeulustod olygu bod rhiant/gofalwr yn methu â:

- Darparu digon o fwyd, dillad a lloches (gan gynnwys gwahardd y plentyn o'r cartref neu ei adael).
- Amddiffyn plentyn rhag niwed neu berygl corfforol ac emosiynol.

- Sicrhau goruchwyliaeth ddigonol (gan gynnwys defnyddio rhoddwyr gofal annigonol).
- Sicrhau mynediad at ofal neu driniaeth feddygol briodol. Gall hefyd gynnwys esgeuluso, neu beidio ag ymateb i anghenion emosiynol sylfaenol plentyn.

**Cyfoedion yn Cam-drin Cyfoedion**

Dylai pob cydweithiwr fod yn ymwybodol fod plant yn gallu cam-drin plant eraill (cyfeirir ato'n aml fel cam-drin cyfoedion ar gyfoedion). Ac y gall ddigwydd yn y Coleg a thu allan iddo ac ar-lein, a gall fod yn arwydd o gamdriniaeth a/neu drawma o’r presennol neu’r gorffennol. Mae’n bwysig bod cydweithwyr yn adnabod arwyddion cam-drin cyfoedion ar gyfoedion a gwybod sut i’w adnabod ac ymateb i adroddiadau. Mae’n hanfodol bod cydweithwyr yn deall pwysigrwydd herio ymddygiadau amhriodol rhwng cyfoedion, y mae llawer wedi’u rhestru isod, sydd mewn gwirionedd yn ddifrïol eu natur. Bychanu ymddygiadau penodol, er enghraifft gall wfftio aflonyddu rhywiol fel “banter”, “jocian”, “rhan o dyfu fyny” neu “ymddygiad arferol i hogiau” arwain at ddiwylliant o ymddygiadau annerbyniol, amgylchedd anniogel i blant ac yn yr achosion gwaethaf diwylliant sy’n normaleiddio camdriniaeth ac felly’n arwain at blant yn derbyn yr ymddygiad hwnnw fel y norm ac yn dweud dim amdano.

Mae cam-drin cyfoedion gan gyfoedion yn fwyaf tebygol o gynnwys, ond efallai nad yw’n gyfyngedig i:

- bwlio (gan gynnwys seiberfwlio, bwlio rhagfarnllyd a gwahaniaethol).
- cam-drin mewn cydberthnasau personol rhwng cyfoedion.
- cam-drin corfforol fel taro, cicio, ysgwyd, brathu, tynnu gwallt, neu achosi niwed corfforol fel arall (gall hyn gynnwys elfen ar-lein sy’n hwyluso, bygwth a/neu annog cam-drin corfforol).
- trais rhywiol, fel treisio, ymosod trwy dreiddiad ac ymosodiad rhywiol; (gallai hyn gynnwys elfen ar-lein sy’n hwyluso, bygwth a/neu annog trais rhywiol).
- aflonyddu rhywiol, fel sylwadau rhywiol, jôcs ac aflonyddu rhywiol ar-lein, a allai fod ar wahân neu’n rhan o batrwm ehangach o gam-drin.
- achosi rhywun i gymryd rhan mewn gweithgarwch rhywiol heb ganiatâd, fel gorfodi rhywun i ddadwisgo, cyffwrdd eu hunain mewn ffordd rywiol, neu gymryd rhan mewn gweithgarwch rhywiol gyda thrydydd parti.
- rhannu lluniau a/neu fideos noeth neu led-noeth (hefyd yn cael ei adnabod fel secstio neu luniau rhywiol o bobl ifanc) gydag a heb ganiatâd.
- uwchsgertio, lle mae rhywun yn tynnu llun o dan ddillad unigolyn (nid sgert o anghenraid) heb eu caniatâd a/neu heb yn wybod iddynt, gyda’r bwriad o weld eu horganau cenhedlu neu ben-ôl (gyda neu heb ddillad isaf) er boddhad rhywiol, neu i achosi cywilydd, gofid neu fraw i’r dioddefwr. Mae’n drosedd. Gall unrhyw un o unrhyw ryw fod yn ddioddefwr.
- trais a defodau cyflwyno/annifyrru (gallai hyn gynnwys gweithgareddau sy’n cynnwys aflonyddu, cam-drin neu gywilyddio fel modd o ymsefydlu unigolyn mewn grŵp a gallai hyn gynnwys elfen ar-lein).

**Aflonyddu Rhywiol**

Wrth gyfeirio at aflonyddu rhywiol, rydym yn golygu ‘ymddygiad dieisiau o natur rywiol’ sy’n gallu digwydd ar-lein ac all-lein ac yn yr ysgol/coleg a thu allan iddo. Pan rydym yn cyfeirio at aflonyddu rhywiol, rydym yn gwneud hynny mewn cyd-destun aflonyddu rhywiol plentyn ar

blentyn. Mae aflonyddu rhywiol yn debygol o: darfu ar urddas plentyn, a/neu eu brawychu, iselhau, cywilyddio a/neu greu amgylchedd anghyfeillgar, annymunol neu rywiol.

Er nad yw wedi'i bwriadu i fod yn rhestr gyflawn, gall aflonyddu rhywiol gynnwys:

- sylwadau rhywiol, fel: dweud straeon rhywiol, gwneud sylwadau anweddus, gwneud sylwadau rhywiol am ddillad a gwedd a galw enwau rhywiol ar rywun.
- "jôcs" neu wawdio rhywiol.
- ymddygiad corfforol, fel: lledgyffwrdd â rhywun ar bwrpas, ymyrryd â dillad rhywun (dylai ysgolion a cholegau fod yn ystyried pan fo hyn yn croesi'r ffin a thrais rhywiol - mae'n bwysig trafod ac ystyried profiad y dioddefwr) a dangos lluniau, ffotograffau neu luniadau o natur rywiol; ac
- aflonyddu rhywiol ar-lein. Gallai hyn fod yn ddigwyddiad unigol, neu'n rhan o batrwm ehangach o aflonyddu rhywiol a/neu drais rhywiol. Gall gynnwys:
- rhannu lluniau a/neu fideos noeth a lled-noeth gyda chaniatâd neu heb ganiatâd.

**Trais Difrifol**

Rydym yn rhoi gwybod i'n cydweithwyr am ddangosyddion bod dysgwyr mewn perygl o droseddau treisgar difrifol neu fod yn gysylltiedig â nhw. Mae'r rhain yn cynnwys cynnydd mewn rhagor o absenoldebau, newid cyfeillion, neu berthnasau ag unigolion neu grwpiau hŷn, dirywiad sylweddol mewn perfformiad, arwyddion o hunan-niweidio neu newid sylweddol mewn llesiant, neu arwyddion o ymosodiad neu anafiadau anesboniadwy. Gallai rhoddion anesboniadwy hefyd nodi bod unigolion sy'n gysylltiedig â gangiau troseddol wedi cysylltu â dysgwyr neu'n ymwneud â nhw.

**Diogelwch Ar-lein**

Mae ehangder y materion a ddosberthir o fewn diogelwch ar-lein yn sylweddol, ond gellir eu categoreiddio i bedwar maes risg:

• Cynnwys: gweld cynnwys anghyfreithlon, amhriodol neu niweidiol, er enghraifft: pornograffi, newyddion ffug, hiliaeth, casineb at ferched, hunan-niwed, hunanladdiad, gwrth-semitiaeth, radicaliaeth ac eithafiaeth.

• Cyswllt: bod yn destun rhyngweithio niweidiol ar-lein gyda defnyddwyr eraill; er enghraifft: pwysau cyfoedion ar gyfoedion, hysbysebu masnachol ac oedolion yn esgus bod yn blant neu bobl ifanc gyda'r bwriad o'u hudo neu eu hecsbloetio at ddibenion rhywiol, troseddol, ariannol neu eraill.

• Ymddygiad: ymddygiad ar-lein personol sy'n cynyddu'r tebygolrwydd o, neu achosi, niwedd; er enghraifft, gwneud, anfon neu dderbyn lluniau cignoeth (e.e. rhannu lluniau noeth neu led-noeth gyda chaniatâd neu heb ganiatâd a/neu bornograffi, rhannu lluniau cignoeth a bwlio ar-lein; a

• Masnach: risgiau fel gamblo ar-lein, hysbysebu amhriodol, gwe-rwydo a/neu sgamiau ariannol.

**Secstio**

Nid oes diffiniad cydnabyddedig o 'secstio' ond mae'r rhan fwyaf o weithwyr proffesiynol yn cytuno ei fod yn cyfeirio at anfon neu bostio delweddau awgrymog yn rhywiol, gan gynnwys ffotograffau a/neu fideos noeth a led-noeth gyda chaniatâd neu beidio, o unigolion dan 18 oed,

trwy ffonau symudol neu dros y rhyngrwyd. Gellir cyfeirio at hyn fel 'delweddau rhywiol a luniwyd gan bobl ifanc'.

Byddwn yn ymateb i bob digwyddiad o ddelweddau rhywiol a luniwyd gan bobl ifanc fel a ganlyn:

- Cyfeirir y digwyddiad at y PDD ar unwaith a bydd y PDD yn cynnal cyfarfod adolygu dechreuol gyda'r staff priodol. Cynhelir cyfweliadau dilynol gyda'r bobl ifanc sydd ynghlwm â'r digwyddiad, os yw hynny'n briodol.
- Rhoddir gwybod i rieni'n gynnar yn y broses, a'u cynnwys, oni bai fod rhesymau da dros gredu y byddai cynnwys y rhieni yn rhoi'r unigolyn ifanc mewn perygl o gael ei niweidio.
- Petai pryder unrhyw bryd yn ystod y broses bod unigolyn ifanc wedi cael ei niweidio neu ei fod mewn perygl o gael ei niweidio, bydd yr achos yn cael ei gyfeirio at y gwasanaethau cymdeithasol plant a/neu'r heddlu ar unwaith, yn unol â'r polisi hwn.
- Efallai bydd rhaid cyfeirio rhai achosion at yr heddlu. Unwaith y bydd adroddiad wedi'i gyflwyno i'r heddlu, dylid cofnodi'r adroddiad a bydd yr heddlu yn ymchwilio iddo. Efallai bydd hynny'n cynnwys atafaelu'r dyfeisiau a chyfweld y bobl ifanc dan sylw.

**Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant**
Mae Camfanteisio Rhywiol yn cynnwys unigolyn neu grŵp o oedolion yn manteisio ar natur fregus unigolyn neu grwpiau o blant neu bobl ifanc, a gall dioddefwyr fod o unrhyw rhywedd. Mae pobl ifanc yn aml yn cael eu denu i gael eu hecsbloetio'n rhywiol yn ddiarwybod iddynt, trwy gynnig cyfeillgarwch a gofal, anrhegion, cyffuriau ac alcohol, ac weithiau llety. Mae'n drosedd ddifrifol a gall gael effaith andwyol tymor hir ar iechyd corfforol ac emosiynol dysgwr. Efallai ei fod hefyd yn gysylltiedig â masnachu plant. Efallai na fydd yr unigolyn ifanc yn cydnabod natur orfodol y berthynas ac nid yw'n ystyried ei fod yn ddioddefwr. I ddechrau, gall y dysgwr fod yn ddig am yr hyn y maent yn ei ystyried yn ymyrraeth gan staff, ond mae'n rhaid i staff weithredu ar eu pryderon, fel y byddent yn ei wneud gydag unrhyw fath arall o gam-drin. Dylid rhoi gwybod i'r PDD am bob pryder ar unwaith.

**Trais ar sail Anrhydedd**
Mae Trais ar sail Anrhydedd yn cynnwys troseddau a gafodd eu cyflawni i amddiffyn neu ddiogelu anrhydedd y teulu a/neu'r gymuned, gan gynnwys anffurfio organau cenhedlu benywod (FGM), priodas dan orfod, ac arferion fel llyfnhau bronnau. Mae pob ffurf ar Drais ar sail Anrhydedd yn gamdriniaeth a dylech roi gwybod amdanynt ar unwaith i'r PDD.

FGM yw'r enw torfol ar ystod o weithrediadau sy'n cynnwys cael gwared ar yr organau cenhedlu benywaidd allanol yn rhannol neu'n llwyr am resymau anfeddygol. Yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, mae'r arfer yn drosedd o dan Ddeddf Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod 2003. Gall yr arfer achosi poen a thrallod dwys a chanlyniadau iechyd tymor hir, gan gynnwys anawsterau wrth eni plentyn.

Gweithredir FGM ar fenywod unrhyw oedran, o fabanod ifanc i bobl ifanc hŷn yn eu harddegau a merched sy'n oedolion, felly mae staff y Coleg wedi'u hyfforddi i wybod beth yw'r dangosyddion risg. Mae llawer o weithrediadau fel hyn yn cael eu cyflawni dramor a dylai staff

fod yn arbennig o effro i amheuon neu bryderon a fynegir gan ddysgwyr benywaidd ynghylch mynd ar wyliau hir yn ystod cyfnod gwyliau'r haf.

Priodas dan orfod yw lle nad yw merch (a dyn weithiau) yn cydsynio i'r briodas ond yn cael ei gorfodi i wneud hynny. Mae'r orfodaeth yn gallu cynnwys rhoi pwysau corfforol, seicolegol, ariannol, rhywiol ac emosiynol. Gall hefyd gynnwys trais a cham-drin corfforol neu rywiol. Yng Nghymru a Lloegr mae'r arfer yn drosedd o dan Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014. Gellir priodi plant yn ifanc iawn, a llawer ifancach na'r oedran cydsynio. Mae staff y Coleg wedi cael hyfforddiant a dylid ymchwilio i unrhyw amheuon neu bryderon ynghylch dysgwyr sy'n cael eu cludo dramor ac nad ydynt yn cael dychwelyd i'r Deyrnas Unedig. Nid yw priodas dan orfod yr un peth â phriodas wedi'i threfnu, sy'n gyffredin mewn sawl diwylliant. Mae teuluoedd y ddau briod yn chwarae rhan flaenllaw wrth drefnu'r briodas ond y darpar briod sy'n dewis a ddylid derbyn y trefniant ai peidio.

**Radicaleiddio ac Eithafiaeth**

Mae'r llywodraeth yn diffinio eithafiaeth fel gwrthwynebiad llafar neu weithredol i werthoedd sylfaenol Prydeinig, gan gynnwys democratiaeth, rheolaeth y gyfraith, rhyddid yr unigolyn a pharchu a goddef gwahanol gredoau a ffydd y naill a'r llall. Mae rhai dysgwyr mewn perygl o gael eu radicaleiddio: mabwysiadu credoau a chymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n niweidiol, yn droseddol neu'n beryglus. Eithafiaeth Islamaidd yw'r ffurf sy'n cael y rhan fwyaf o gyhoeddusrwydd ond dylai staff colegau barhau i fod yn effro hefyd i'r risg o radicaleiddio i eithafiaeth goruchafiaeth pobl groenwyn. Mae staff y Coleg yn cael hyfforddiant i helpu i ganfod arwyddion eithafiaeth. Darperir cyfleoedd yn y cwricwlwm i alluogi dysgwyr i drafod materion neu grefydd, ethnigrwydd a diwylliant, ac mae'r Coleg yn dilyn Canllawiau Diwygiedig Dyletswydd Prevent Llywodraeth EF ar gyfer Cymru a Lloegr (Gorffennaf 2015) a Chanllawiau'r Ddyletswydd Prevent ar gyfer Sefydliadau Addysg Bellach yng Nghymru a Lloegr. Dylid darllen yr adran hon ar Ddiogelu ar y cyd â Pholisi Prevent y Coleg.

**Camfanteisio Troseddol**

Mae camfanteisio troseddol yn ddull daearyddol eang o niweidio sy'n nodweddiadol o weithgareddau troseddol llinellau cyffuriau: rhwydweithiau cyffuriau neu gangiau sy'n ecsbloetio pobl ifanc i gludo cyffuriau ac arian o ardaloedd trefol i ardaloedd maestrefol a gwledig, marchnadoedd a threfi glan môr. Y prif ddangosydd yw cynnydd mewn absenoldeb ac yn ystod yr amser hwnnw mae'n bosibl bod y dysgwr wedi cael ei fasnachu at ddibenion cludo cyffuriau neu arian. Gall camfanteisio gan linellau cyffuriau effeithio ar unrhyw blentyn dan 18 oed. Gellir ei ystyried yn ecsbloetio hyd yn oed os yw'r gweithgaredd yn ymddangos yn gydsyniol, gall gynnwys dulliau cydymffurfio sy'n seiliedig ar rym a/neu ddenu ac yn aml mae trais neu fygythiadau o drais yn cyd-fynd ag ef. Gall unigolion neu grwpiau, unrhyw rywedd, a phobl ifanc neu oedolion gyflawni camfanteisio drwy linellau cyffuriau ac fe'i nodweddir gan ryw fath o anghydbwysedd grym, fel oedran, rhywedd, gallu gwybyddol, cryfder corfforol, statws a mynediad at adnoddau economaidd neu adnoddau eraill.

**Mulod Arian**

Mae colegau yn faes recriwtio allweddol ar gyfer troseddwyr sydd am symud arian trwy gyfrifon fel eu bod yn edrych yn llai amheus i fanciau. Rhoddir cyfran i bobl ifanc am ganiatáu defnyddio eu cyfrif. Yn aml nid ydynt yn gofyn unrhyw gwestiynau ynghylch ffynhonnell yr arian. Dynion ifanc yw'r rhan fwyaf o fulod arian, sydd, wrth geisio rhoi'r gorau iddi, yn cael eu bygwth yn aml

â thrais gan y troseddwyr a'u recriwtiodd. Caiff pobl ifanc eu recriwtio i weithgaredd anghyfreithlon trwy'r cyfryngau cymdeithasol ac yn aml nid ydynt yn deall y canlyniadau petaent yn cael eu dal y byddent yn wynebu carchar yn ogystal â chau eu cyfrifon banc a chael anawsterau gyda chyllid yn y dyfodol. Mae'r nifer sy'n ymwneud â'r gweithgaredd hwn wedi cynyddu'n sylweddol ers 2018.

**Meithrin Perthynas at Ddiben Rhyw**

Dyma feithrin perthynas, ymddiriedaeth a chysylltiad emosiynol â phlentyn neu oedolyn agored i niwed, fel y gallant ddylanwadu arnynt, eu hecsbloetio a'u cam-drin. Gellir cam-drin plant a phobl ifanc yn rhywiol, eu hecsbloetio neu eu masnachu. Mae unrhyw un yn gallu gwneud hyn, waeth beth fo'u hoed, eu rhywedd na'u hil. Mae'r arwyddion yn gallu cynnwys:

- Rhoi sylw arbennig i'r dysgwr.
- Prynu anrhegion i'r dysgwr heb unrhyw reswm dros hynny.
- Cynnig prynu alcohol neu gyffuriau i'r dysgwr.
- Treulio amser gyda'r dysgwr tra bydd yn cael cawod neu'n dadwisgo.
- Siarad am ryw a dweud jôcs am ryw.
- Cyffwrdd y dysgwr ym mhresenoldeb ei rieni/gofalwyr i wneud i'r dioddefwr gredu bod y gamdriniaeth yn iawn. Gall hyn fod yn ddim ond cofleidiad.
- Nad yw'r dioddefwr yn dymuno cael ei gofleidio gan y sawl sy'n ei gam-drin.
- Bod y sawl sy'n cam-drin y dysgwr yn rhannu'r un diddordebau er eich bod chi'n gwybod nad yw hynny'n wir.

**Trefniadau Maethu Preifat**

Mae trefniant maethu preifat yn digwydd pan fydd rhywun heblaw rhiant neu berthynas agos yn gofalu am ddysgwr dan 16 oed am gyfnod o 28 diwrnod neu hwy, gyda chytundeb rhieni'r plentyn. Mae'n berthnasol i blentyn dan 16 oed neu dan 18 oed os yw'r plentyn yn anabl. Yn ôl y gyfraith, mae'n rhaid i riant, gofalwr maeth preifat neu bobl eraill sy'n ymwneud â threfnu maethu preifat roi gwybod i'r gwasanaethau plant cyn gynted â phosibl.

**Llety**

Mae ymchwil wedi dangos bod plant yn gallu bod yn hynod o agored i niwed mewn sefyllfaoedd preswyl. Bydd pob llety yn cydymffurfio â'r Lleiafswm Gofynion Cenedlaethol a bydd Arolygiaeth Gofal Cymru yn eu harchwilio.

## Atodiad 2

Aelodau'r Tîm Diogelu

Martina Davies (Llywodraethwr Cyswllt - Diogelu)
Cath Sullivan (Arweinydd Diogelu'r Tîm Rheoli Gweithredol)

Karen Senior (Person Diogelu Dynodedig hyd at 31 Awst 2023)
Bethan Charles (Person Diogelu Dynodedig o 1 Medi 2023)
Casey Watkins (Dirprwy Berson Diogelu Dynodedig)

Swyddogion Lles (Diogelu):
Daniel Edwards (Ffordd y Bers)
Sue Francis (Glannau Dyfrdwy)
Holly Downing (Chweched Glannau Dyfrdwy)
Sioned Jones (Llysfasi)
Karen Hill (Llaneurgain)
Jordanne Ecclestone (Iâl)